
# Adolygiad o gyfrol farddoniaeth *Ffenestri Gobaith* gan John Emyr. Cyhoeddiadau'r Gair, Awst 2023, £7.99

Mae'n gyfnod o drai ar grefydd gydag eglwysi a chapeli yn cau ym mhob man a Chymru'n prysur droi yn wlad ddigrefydd. Llaciwyd gafael ar y gwerthoedd Cristnogol wrth i gymdeithas droi'n fwyfwy hunanol a materol. Gellid dadlau felly fod mwy o angen y gyfrol amserol hon arnom heddiw nag a fu erioed o'r blaen. Yn naturiol, mae hyn yn loes calon i fab gweinidog ond nid yw'n esgyn i bulpud y pregethwr i geryddu'n difaterwch. Gwell ganddo ein cyfeirio yn dawel at amgenach ffordd o fyw. Mae'n ymwrthod hefyd â'r demtasiwn i ddigalonni. Yn hytrach, wyneba'r heriau gyda ffydd un a gredo.

*Ffenestri Gobaith* yw'r teitl a cheir llun ar y clawr o ffenestr goffa y ddwy nyrs, Dilwen a Mair Harries, sydd i'w gweld yng nghapel Bethel, Penarth. Mae'r argraffiad hwn o waith Gareth Morgan, yr arlunydd gwydr lliw o Gaerfyrddin, gyda'i gyfoeth o ddelweddau beiblaidd, yn gosod y naws i'r dim. Yna, o fewn y cloriau, cawn gyffes ffydd y bardd a'r Cristion, John Emyr, wrth iddo edrych allan ar y byd sydd ohoni drwy ffenestri lliw y cerddi unigol. Gwneir hynny ar amrywiaeth o fesurau. Ceir yma ddwy awdl goffa, un i'r Athro R. Geraint Gruffydd a'r llall i'r genhades Eluned Mair Davies o Batagonia, yn ogystal â chywyddau, englynion, hir-a-thoddeidiau, emynau, sonedau,




caneuon, cerddi penrhydd, dwy filanel, tribannau, phenillion telyn a chwpledi unigol. Mae'r grefft yn lân a'r geiriau'n canu, ac o'u darllen yn uchel daw'n amlwg fod clust yr awdur wedi'i diwnio i fiwsig cystrawennau Beibl William Morgan a rhythmau'r hen emynwyr.


Mae hon yn gyfrol gynnes, gartrefol, sy'n llawn pobol, a theimlwn ein bod yn dod i adnabod yr awdur o fewn y tudalennau. Awen gymdeithasol ydyw sy'n dathlu achlysuron hapus gyda'i ffrindiau ac yn cofio am y rhai a gollwyd yn y dull traddodiadol Cymreig. Un o nodweddion pennaf y gyfrol yw'r Cymreictod naturiol sy'n treiddio drwyddi. Ynddi mae'n cofleidio'r genedl gyfan a'i hamrywiol ardaloedd. Mae gwreiddiau'r bardd yn ddwfn yng Ngwynedd: bu'n ddisgybl yn Ysgol Glan Clwyd, yn fyfyriwr yng Ngholeg Aberystwyth, priododd ferch o Gwmafan a magodd deulu yng Nghaerdydd. Ac mae'r iaith Gymraeg yn goron ar y cyfan. Hi, fel y dywedodd, yw 'mur egwan llys ein cof a llais ein cân'.

Daw hyn â ni at y teulu agos ac unwaith eto ceir cerddi'n dathlu cerrig milltir y daith, o ben-blwydd pump oed Olwen ei wyres, hyd at ganrif ei fam Grace Roberts. Cyflwynir y gyfrol i'r wyrion a'r wyresau – chwech ohonynt – a chlosiwn at y dyn teulu yn y delyneg annwyl 'Tad-cu ac ŵyr', yn y cywydd crefftus i'w fab-yng-nghyfraith, yr arlunydd Huw Aaron, ac yn enwedig yn ei gerddi serch i'w wraig Gwen.

Yn yr amseroedd anodd sydd ohoni, bydd y gyfrol hyfryd hon yn fodd i atgyfnerthu ffydd y gweddill ffyddlon sy'n dal i gadw drysau ein haddoldai ar agor, a hefyd yn gyfrwng i bigo cydwybod y rhai ohonom a gollodd yr arfer o fynychu oedfa ar y Sul. Diolch amdani.

Idris Reynolds, oddi ar [www.gwales.com](http://www.gwales.com), trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

# Lansio cyfrol *Eglwys y Bobl 2*




Bnawn Llun, Tachwedd 13, lansiwyd ail gyfrol yn y gyfres *Eglwys y Bobl*, sef cyfres o fyfyrdodau yn dilyn y flwyddyn eglwysig, a hynny mewn cyfarfod yn Nant Gwrtheyrn. Daeth cynulleidfa dda ynghyd i gyfarfod o dan nawdd Esgobaeth Bangor, a hynny yng nghwmni Archesgob Cymru, Andrew John. Mae'r gyfrol yn ffrwyth cydweithio rhwng Cyhoeddiadau'r Gair, Athrofa Padarn Sant a'r Eglwys yng Nghymru. O fewn y gyfrol ddwyieithog ceir 60 o fyfyrdodau gwreiddiol, wedi eu paratoi gan weinidogion a chlerigwyr o Gymru, gyda fersiwn Cymraeg a Saesneg cyfatebol. Mae'r darlleniadau Beiblaidd y seiliwyd y myfyrdodau arnynt yn dilyn darlleniadau blwyddyn B y Llithiadur. Dyma gyfrol hwylus i'r rhai sy'n cynnal gwasanaethau mewn eglwysi a chapeli, ac yn arbennig o ddefnyddiol i gynulleidfaoedd dwyieithog. Mae'r gyfrol bellach ar gael yn y siopau, pris £13.99.


Andrew John, Aled Davies, Naomi Starkey a Manon Ceridwen James